



# EIP WALES

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success



menter  
a busnes

## Mesur glaswellt drwy ddefnyddio lluniau adlewyrchiad sbectrol

### Y BROBLEM:

Mae mesur cnwd glaswellt yn gallu bod yn drafferthus ac yn llafurus

### NOD Y PROSIECT:

I ymchwilio os yw lluniau drôn a lloeren yn profi i fod yn ddull mwy dibynadwy a chyflym o fesur gwair o gymharu â mesurydd plât

### Y GRŴP:

Tri ffermwr llaeth yn Sir Fynwy: David Jones, Fferm Hardwick;  
Russell Morgan, Fferm Graig Olway; David Morgan, Trostrey.



### Cynllun y Prosiect

- Ar bob un o'r ffermydd, bydd un cae silwair yn cael ei rannu i brofi gwahanol driniaethau agronomeg (e.e. triniaethau gwrtait, triniaethau tail buarth, neu rhywogaethau gwahanol o laswellt).
- Bydd tyfiant y glaswellt yn cael ei fesur drwy gydol y tymor gan ddefnyddio mesurydd plât.
- Bydd lluniau lloeren a drôn o'r caeau yn cael eu cymryd yn rheolaidd yn dilyn y triniaethau agronomeg ac yna'n cael eu cymharu yn erbyn data'r mesurydd plât.
- Y nod yw gweld os gall lluniau drôn neu loeren gael eu defnyddio'n hyderus i fonitro tyfiant a chnwd glaswellt, yn ogystal â darganfod os maent yn ddull cyflymach, rhatach ac o bosib yn ddull mwy manwl na defnyddio mesurydd plât.

**“Mae'n bosibl y gallai'r dulliau newydd yma gynnig ffordd fanwl o fesur gwair heb fod yn rhy ddwys o ran llafur, a fydd yn gallu gwella dichonoldeb y fferm a'i gallu i gystadlu”**

–  
Cate Barrow (RSK ADAS)  
Brocer Arloesedd y prosiect



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government